

Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, 30 Ionawr 2024 yng Nghaffi Beca am 7.30pm

Yn bresennol: Russell Davies (Is-gadeirydd), Anthony Jenner, Dennis Jones, Anthony Eynon, Julian Williams, Ffion John, Michael Fussell, Cyng Dorian Phillips, Janice Morgan (Clerc)

1. Ymddiheuriadau: Tudur Lewis (Cadeirydd), Rebecca Jaimangl-Jones

Cadeiriwyd y cyfarfod gan RD, yr Is-gadeirydd yn absenoldeb TL, y Cadeirydd. Dymunwyd yn dda i TD wrth iddo dderbyn triniaeth.

2. Datganiadau o ddiddordeb: Dim

3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf 28/11/2023:

- Cynigiwyd bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 28ain Tachwedd 2023 yn gywir gan AJ ac eiliwyd gan AE.

Materion yn codi o'r cofnodion:

Cam gweithredu 1: JM i gyflwyno drafft o'r cynllun hyfforddi yn y cyfarfod nesaf

Diweddariad: JM i gyflwyno'r cynllun hyfforddiant yng nghyfarfod mis Mawrth

Cam gweithredu 2: JM i lenwi ffurflen Adran 106 ar gyfer Parc yr Odyn a Cross Inn gan eu bod at ddefnydd preswyl

Diweddariad: JM i gyflwyno ffurflen Adran 106 cyn gynted

Cam gweithredu 3: JM i ychwanegu'r arwyddion a'r offer ar y gofrestr risgiau

Diweddariad: Mae'r arwyddion newydd ac offer yn y grant wedi cael eu hychwanegu

Cam gweithredu 4: JM i ofyn am gyngor oddi wrth Un Llais Cymru ynglyn â'r sefyllfa gyda'r yswiriant a hefyd gofyn am gyngor ynghylch cwmnïau yswiriant eraill

Diweddariad: Eglurodd JM bod y cwmni yswiriant Clear Insurance wedi adnewyddu'r yswiriant ar 3/12/23 a bod y taliad wedi cael ei wneud erbyn hyn; nid oedd yn fater o gonsyrn felly.

Hefyd, dywedodd Un Llais Cymru bod prisiau yswiriant wedi mynd lan eleni ond byddai'n werth siopa rownd ar gyfer y flwyddyn nesa

Cam gweithredu 5: AJ i edrych mewn i gost adnewyddu'r paneli perspex ar gyfer y ciosg

Diweddariad: Dywedodd AJ bydd angen 10 panel perspex; cost un panel yw £4.70.

Mae AJ yn hapus i'w gosod. Hefyd, cytunwyd cadw'r ciosg yn goch. Mae ciosg gwyrdd yn dynodi bod diffib ynddo

Cam gweithredu 6: JM i ofyn i Carwyn James, perchennog siop Glandy Cross am ganiatâd i osod hysbysfwrdd ar ochr y siop

Diweddariad: Cadarnhaodd JM bod CJ wedi caniatâu i hysbysfwrdd gael ei osod ar ochr y siop. JM i ymchwilio i bris hysbysfwrdd alwminiwm erbyn y cyfarfod nesa

4. Diweddariad ar y Prosiect Adfer Llwybrau Troed

- Rhoddodd JM y diweddariad canlynol:
 - mae'r is-grŵp yn cyfarfod bob mis a chynhaliwyd y cyfarfod diwetha 22/1/24

- mae Jason Lawday wedi bod yn cydweitho gyda'r perchnogion tir ac o ganlyniad mae sawl gwyrad yn cael ei wneud fel bod y llwybrau troed ddim yn mynd drwy glos ffermydd neu yn agos i dai pobl nac yn mynd drwy berci lle mae anifeiliaid yn pori. Mae JL wedi paratoi'r dogfennau angenrheidiol ac maen nhw wedi mynd allan ac o dan gyfnod o ymgynghori o 28 diwrnod
- mae Claim 4 wedi cael ei gyflwyno nawr am £6k ar gyfer gwaith clirio'r contractiwr gafodd ei wneud fis Tachwedd
- mae £17,760 o'r £57K arian grant wedi cael ei wario hyd yn hyn
- mae Julie Sweet yn cynnal teithiau cerdded cymunedol bob mis sy'n cyfrannu tuag at allbynnau'r prosiect. Maen nhw'n cael eu hysbysebu ar Facebook ac mae croeso i bawb

Cam gweithredu: Angen hysbysebu'r teithiau cerdded drwy ddulliau eraill gan nad yw pawb ar FB

- mae gan y project logo swyddogol nawr ac mae wedi cael ei rannu gyda Chyngor Sir Caerfyrddin
- mae grŵp hanes lleol yr fin cael ei ffurfio dan arweiniad Dr Stephen Griffiths. Bydd y grŵp yn edrych ar y can mlynedd diwethaf gan y bydd hyn yn cynnwys tair cenhedlaeth fydd yn gallu cymryd rhan a chyfrannu. Mae archeolegydd wedi dweud y byddai e'n fodlon cofnodi a mapio itemau a safleoedd hanesyddol yn yr ardal o gwmpas yr afon Wenallt; yn gallu cael gafael ar fapiau hynafol a gwybodaeth am yr ardal yn gysylltiedig â'r llwybrau troed
- Dywedwyd bod angen bod yn sensitif i'r rhai sydd ddim mor awyddus i weld y llwybrau troed yn cael eu hagor ar eu tir. Cadarnhawyd bod y datblygiadau sy'n digwydd ar hyn o bryd dim ond yn cael eu gwneud gyda'r perchnogion tir yn cydsynio hefyd
- Dywedodd RD bod gan Dr Griffiths adeiladau ar bwys y llwybrau troed a byddai'n hapus iddyn nhw gael eu defnyddio fel man i gerddwyr letya dros nos

5. Grant 2024 'Paths Accessibility Funding'

- Adroddodd JM bod cyfle wedi codi i wneud cais am grant 'Paths Accessibility' i wella cyflwr llwybrau troed. Mae'n rhaid i bob cais nodi'n benodol pa lwybrau troed fydden nhw am eu gwella a bod caniatâd y perchnogion tir wedi cael eu sicrhau hefyd. Mae'r is-grŵp yn cynnig ein bod yn gwneud cais am y grant hwn. Mae cais wedi cael ei ddrafftio a'i anfon at bawb mewn e-bost. Mae'r grant yn cynnwys gwella dau lwybr troed: (i) un yn Efailwen Llwybr Troed 52/5 sy'n rhedeg i mewn i 52/6 – 490 metr i gyd. Bydd angen gwneud gwaith clirio a gosod 3 iet a hefyd gosod ffens o ryw 150 metr i atal cerddwyr rhag mynd i mewn i'r parc sy'n warchodfa natur; (ii) y llall yw Llwybr Troed 4/12 sy'n rhan o'r Landsker Borderland Trail. Mae cyflwr y llwybr hwn yn wael ac mae'r draeniad yn wael iawn. Mae angen creu dwy ffos a chreu man croesi, adnewyddu'r draeniad, lefelu'r wyneb a symud hen goeden sy wedi cwmpo. Mae'r contractiwr wedi bod ar y ddau safle; wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig gan y perchnogion tir perthnasol ac wedi cyflwyno dyfynbris: Llwybr troed 1 yn Efailwen = £4,060.00; Llwybr troed 2 yn Login = £3816.00. Cyfanswm = £7,876.00. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno mynegiant o ddiddordeb yw fory, 31/1/24. Cytunodd pawb i gyflwyno'r cais.

Cam gweithredu: JM i gyflwyno'r cais am grant erbyn y dyddiad cau, sef fory

6. Cydnabyddiaeth Ariannol 2023/24

- Eglurodd JM bod adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn datgan y dylai bob cyngor dalu £156 y flwyddyn i'w haelodau (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol y cartref (gan gynnwys gwresogi, goleuo, ynni a band eang) a geir o weithio gartref. Bydd y taliadau hyn yn cael eu gwneud cyn

ddiwedd Mawrth. Os nad yw cynghorwyr am dderbyn y taliad hwn ar gyfer 23/24, rhaid iddyn nhw gadarnhau hynny yn ysgrifenedig cyn 1/3/24.

7. Gohebiaeth

- Derbyniwyd cais i enwebu cynrychiolydd cyngor cymuned ar gyfer Llywodraethwr Cymunedol Ychwanegol ar Gorff Llywodraethol Ffederasiwn Ysgolion Beca a Bro Brynach. Does dim angen i'r enwebai fod yn gynghorydd cymuned ond dim ond drwy enwebiad gan y Cyngor Cymuned mae'r swydd wag hon yn gallu cael ei llenwi. Bydd y penodiad i'r rôl yn cael ei wneud gan y Corff Llywodraethol. Bydd angen anfon yr enw, y cyfeiriad, epost a'r rhif ffôn y cynrychiolydd erbyn 29/2/24
- **Cam gweithredu: JM i ofyn i Sarah neu Lee Roberts a fyddai diddordeb gyda nhw gael eu henwebu**
- Yn dilyn Adolygiad Cymunedol 2023, derbyniwyd llythyr swyddogol yn cadarnhau bydd y ddwy ward yng Nghilymaenllwyd yn cael eu cyfuno ond yn cadw'r 9 aelod i wasanaethu Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd. Felly dim ond un ward fydd a bydd hyn yn dod i rym yn yr etholiadau lleol nesaf ar 6/5/27.
- Anfonwyd rhestr o sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru at bawb ar gyfer Ionawr, Chwefror a Mawrth
- Anfonwyd manylion hyfforddiant sgiliau digidol am ddim at bawb a hefyd manylion gweminarau hyfforddiant ar Technoleg Gwybodaeth, Gwefannau a Chyfyngau Cymdeithasol. Bydd hyd at 2 le am ddim ar gael i bob Cyngor. Pawb i roi gwybod os hoffon nhw fynyachu unrhyw hyfforddiant

8. Diweddariad Cyllid ac Arwyddo Sieciau

- Diweddariad cyllid gan JM:
 - Ailagorwyd y cyfrif banc ar 2/1/24. Ar fantolen 19/1/24 roedd £12,538.34 yn y cyfrif. Mae'r swm hwn yn cynnwys taliad olaf y praesept o £2,666.67
 - Mae'r arian oedd yn y cyfrif cadw, sef £743, wedi cael ei roi yn y cyfrif cyfredol, felly mae'r cyfrif cadw yn wag ar hyn o bryd
 - Ers y fantolen ar 19/1/24 mae'r taliadau canlynol wedi cael eu gwneud:
 - £6K i'r contractiwr am Claim 4
 - £200 i Ambiwylans Awyr Cymru
 - Felly mae £6,338.34 yn y cyfrif cyfredol ar hyn o bryd. Gobeithir derbyn y £6K o'r Swyddfa Grant cyn bo hir a'r swm wedyn fydd £12,338.34
- Arwyddo sieciau:
 - Mae angen gwneud taliadau brys o ganlyniad i'r sefyllfa gyda'r banc:
 - £729.76 (VAT £121.63) i Gyngor Sir Caerfyrddin am adnewyddu'r goleuadau i LED ar gyfer 2024
 - £1105.00 i Archwilio Cymru, ffioedd archwilio – 3 anfoneb am yr archwiliad 3-blynedd llawn (19/20 £360.00 / 20/21 £380.00 / 21/22 £365.00)
 - £150.00 – i Jamie King am reoli'r wefan ar gyfer y 3 mis nesaf (Ionawr – Mawrth)
 - £50 – i Caffi Beca am ddau cyfarfod (£25 yr un) (y cyfarfod hwn a'r cyfarfod diwetha)
 - £699.40 Cyflog y Clerc – yng nghofnodion Medi a Tachwedd cyflwynodd y clerc anfonebau am dâl ar gyfer yr ail chwarter (Gorff – Medi) a'r trydydd chwarter (Hyd – Rhag), sef £349.70 y chwarter. Nid yw'r clerc wedi cael cyfle i drefnu'r sieciau ar gyfer y ddau chwarter hyn; bydd yn gwneud cyn gynted
 - Mae siec Ffynnonwen am dalu costau'r cabinet diffib a'r trydanwr, sef £633.40 hefyd wedi methu achos cauwyd y cyfrif banc. Bydd angen ail ysgrifennu'r siec hon
 - Felly, cyfanswm o £3,367.56 o daliadau i'w gwneud.
 - Bydd hynny'n gadael £2,970.78 yn y cyfrif cyfredol. Disgwylir £6,000 o'r Swyddfa Grant, felly bydd hynny'n golygu bydd £8,970.78 nôl yn y cyfrif cyfredol.

9. Praesept 2024/25

- Mae angen cadarnhau'r praesept ar gyfer 24/25 cyn gynted â phosib.
- Cyflwynwyd rhagolygon y gyllideb ar gyfer 24/25. Amcangyfrir gwariant o £11,750, yn seiliedig ar daliadau eleni
- Rhagwelir y bydd ychydig o dan £7mil yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn hon
- Un o argymhellion Archwilio Cymru yw na ddylai cynghorau gario gormod o arian drosodd i'r flwyddyn nesa
- Sail Treth y Cyngor ar gyfer y gymuned am 24/25 yw 354.53
- Cytunwyd codi'r praesept gan £500, felly £8,500

Cam gweithredu: Y Cadeirydd a'r Clerc i arwyddo'r ffurflen praesept am £8,500 a'i dychwelyd cyn gynted

10. Cynllunio

- Mae 2 gais cynllunio wedi cael ei wneud ers y cyfarfod diwetha:
 - PL/03434 - cymeradwyo manylion a neilltuwyd gan amod - rhyddhau amod 3: Gallt Glandy Cross, Efailwen, Glandy Cross, Clunderwen, SA66 7RS
 - Caniatâd cynllunio llawn - cadwraeth, trosi ac adnewyddu tri ysgubor yn ddwy annedd breswyl: Rhos, Efailwen, Clunderwen, SA66 7XG
 - Nid oedd unrhyw wrthwynebiad

Cam gweithredu: JM i gynnwys Rhos wrth gwblhau ffurflen Adran 106 gan eu bod yn aneddau preswyl

11. Diweddariad y Cynghorydd Sir

- Rhoddodd y Cyng DP ddiweddariad ar y canlynol:
 - Mae DP wedi riportio'r tyllau ar y ffyrdd ar bwys Rhos ac ar bwys Cwmiles
 - Mae tyllau hefyd ar bwys Pencraig Uchaf ac mae'r ffordd o Login i Gwynlais yn wael iawn
 - Mynychodd DP, AJ a JM cyfarfod cyhoeddus SusTrans yng Nghrymymch ar 16/1/23 yn rhoi'r diweddara am lwybr Y Cardi Bach. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar yr adran rhwng Llanfyrnach i Grymymch a Rhydowen i Glandwr. Mae SusTrans wedi derbyn grant ar gyfer Cyfnod 5 y prosiect, sef 'Concept Design'
- Cam gweithredu: JM i anfon y ddolen i arolwg arlein SusTrans at bawb os hoffon nhw ei lenwi**
- Pont Dolwilym – mae estyniad amser arall wedi cael ei roi ar y gwaith o adfer y bont
 - Tipio anghyfreithlon – er bod arwydd ar safle Ynys Fach, mae hyn dal yn broblem
 - Mae Pencampwriaethau Aredig Cymru yn apelio am arian os hoffai'r cyngor cymuned ystyried rhoi cyfraniad. Mae'r bencampwriaeth yn Sir Gaerfyrddin ar 28/9/24
 - Band eang – cynhaliwyd cyfarfod gyda Chyngor Sir Caerfyrddin yn Llanboidy yn ddiweddar. Mae Voneus wedi cymryd drosodd ond dydyn nhw ddim yn fodlon gwneud y gwaith roedd Broadway wedi addo a ddim wedi llwyddo i gael dyddiad dechrau oddi wrthyn nhw chwaith. Mae cabinets wedi cael eu gosod mewn rhai ardaloedd fel Llanboidy, Meidrim, Maenclochog, Clunderwen
 - Rhagwelir toriadau sylweddol i gyllidebau 24/25 oherwydd y wasgfa ariannol
 - Holwyd beth yw'r rheolau ynghylch 'mobile' yn parcio mewn cilfannau gan fod yna un yn symud o gwmpas ers sawl mis
 - **Cam gweithredu: Y Cyng DP i edrych i mewn i'r sefyllfa yn ymwneud â'r 'mobile' yn parcio mewn cilfannau**

12. Iechyd, Diogelwch a Lles

- Gofynnwyd i'r clerch ynghylch ei lles, yn enwedig gyda'r sefyllfa anffodus ynglyn â'r cyfrif banc. Cadarnhaodd y clerch ei bod yn iawn a diolchwyd iddi am y gwaith mae hi'n ei wneud.

13. Bioamrywiaeth

- Mae'r cynllun gweithredu ar fioamrywiaeth wedi cael ei rannu gyda'r is-grwp ac mae ychydig o gynnydd wedi cael ei nodi e.e. wedi cysylltu gyda Chanolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru (WWBIC). Mae'r Swyddog Gwybodaeth a Chyfathrebu Bioamrywiaeth yn cwrdd â rhai o aelodau'r is-grwp i edrych ar sut maen nhw'n gallu darparu cymorth wrth ddechrau recordio bywyd gwylt. Mae ymweliad safle wedi'i gynllunio ar gyfer dydd Sadwrn 23 Mawrth
- Yng nghyfarfod yr is-grwp trafodwyd y posibilrwydd o gynnal cystadleuaeth i blant a phobl ifanc leol, math o gwis a gwobr fach i'r enillydd a chyhoeddi'r enillydd ar Ddydd Gwyl Dewi. Byddai hyn yn ffordd dda o ymgysylltu â'r genhedlaeth ifanc. Cytunodd pawb a chytunodd y Cyngh DP roi'r wobwr o £20 i'r enillydd.
Cam gweithredu: JM i drefnu cystadleuaeth cwis gydag aelodau o'r is-grwp yn ymwneud â bywyd gwylt
- Mae Fferm Fêl ar bwys Caerfyrddin yn chwilio am lefydd yng ngogledd Sir Benfro i osod cychod gwenyn
- Trafodwyd y posibilrwydd o drefnu sesiwn casglu sbwriel. Er sicrhau diogelwch, mae'n debyg bod angen cofrestru gyda Cadw Cymru'n Daclus

14. Unrhyw Fater Arall – dim materion

15. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

- Nos Fawrth 26 Mawrth 2024 am 7.30pm yng Nghaffi Beca.

Daethpwyd â'r cyfarfod i ben gan y Cadeirydd am 9.00pm

Arwyddwyd

Cadeirydd:  Dyddiad: 26-3-24